# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 12 Mehefin 2012** |
| Amser: | **09:00 – 11:00** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_700000_12_06_2012&t=0&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Dave Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Tracey Davies, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Gillian Body, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Ian Hughes, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lindsay Whittle.

### 2. Cyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ohebiaeth ynghylch gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru

2.1 Rhoddwyd briff i'r Pwyllgor gan Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Dave Thomas, Cyfarwyddwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol; a Tracey Davies, Rheolwr Archwilio Perfformiad.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddarparu:

- Rhagor o wybodaeth am gyfraddau genedigaethau Cesaraidd y byrddau iechyd yng Nghymru o'u cymharu â rhanbarthau a chenhedloedd eraill y DU, gan gynnwys y data diweddaraf sydd ar gael.

## 3. Papurau i'w nodi

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar funudau'r cyfarfod blaenorol.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Eitemau 5 i 9.

## 5. Opsiynau ar gyfer ymdrin â gohebiaeth ynghylch gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dewisiadau ar gyfer ymdrin â'r cyngor a gafwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar wasanaethau mamolaeth, a phenderfynodd y Pwyllgor y byddai'n cynnal ymchwiliad byr i rai materion sy'n peri pryder a amlygwyd yn ei ohebiaeth.

## 6. Sesiwn friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Powys Fadog - gwerthu gwesty'r River Lodge

6.1 Cafodd y Pwyllgor friff preifat gan Gillian Body, yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol – Archwilio Perfformiad ac Ian Hughes, Rheolwr Cydymffurfio, ar adroddiad a gyhoeddir yn fuan, *The Welsh Government's acquisition and action to dispose of the former River Lodge Hotel, Llangollen (heb ei gyhoeddi yn Gymraeg hyd yn hyn) .*

## 7. Opsiynau ar gyfer ymdrin â Phowys Fadog - gwerthu gwesty'r River Lodge

7.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i ganfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *The Welsh Government's acquisition and action to dispose of the former River Lodge Hotel, Llangollen* a gofynnodd i'r Clerc gasglu rhestr o dystion posibl i roi tystiolaeth.

## 8. Trafod busnes y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol a'i raglen waith ar gyfer haf 2012

8.1 Trafododd y Pwyllgor ei raglen waith ar gyfer tymor yr haf 2012.

## 9. Trafod ymweliad â Chynulliad Gogledd Iwerddon

9.1 Trafododd y Pwyllgor y cynigion i ymweld â Chynulliad Gogledd Iwerddon ar 12-13 Medi 2012 i drafod arfer gorau â'i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Cytunwyd ar y cynigion.